



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau'r Trosglwyddo Carthffosydd Preifat

Cyfarwyddyd Anstatudol ar Rheoliadau's Diwydiant Dŵr
(Cynlluniadau Mabwysiadau Carthffosydd Preifat) 2011

Hydref 2011

I gael rhagor o wybodaeth neu copïau ychwanegol:

Llywodraeth Cymru
Y Gangen Polisi Dŵr
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ebst: water@wales.gsi.gov.uk

Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru

Fersiwn ddiweddaraf – 10 Hydref 2011

	Tudalen
1. Cyflwyniad	2
2. Cefndir	
2.1 Beth yw carthffosydd, draeniau ochrol a gorsafoedd pwmpio preifat?	3
2.2 Polisi Llywodraeth Cymru	3
2.3 Ymchwil ac Ymgynghori Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU	4
2.4 Beth yw trosglwyddo a phryd fydd hyn yn digwydd?	5
2.5 Pa fuddion sydd wedi'u sicrhau gan y trosglwyddo?	5
2.6 Pwy fydd yn talu am y trosglwyddo a beth fydd y gost?	6
2.7 Oes angen i mi hysbysu fy ymgymwrwr carthffosiaeth os oes gennyf i garthffos breifat neu ddraen ochrol?	6
2.8 Sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd y rhwydwaith carthffosiaeth yn ehangu ymhellach?	6
3. Pa asedau wedi cael eu trosglwyddo?	
3.1 Cwmpas a Graddau'r Trosglwyddo	7
(i) Cynllun trosglwyddo ategol	8
(ii) Systemau carthffosiaeth hunangynhwysol	8
(iii) Carthffosydd dŵr arwyneb	8
(iv) Enghraifft o drefniadau carthffosydd a draenio preifat cyfredol	9
(v) Enghraifft o drefniadau yn y dyfodol	10
(vi) Cwrtil	11
3.2 Dynodi cwrtil - eiddo unigol	11
3.3 Dynodi cwrtil - safleoedd ag eiddo lluosog	12
3.4 Draeniau disgrychiant i fyny'r afon o orsafoedd pwmpio	13
3.5 Carthffosydd a draeniau ochrol preifat traws-ffiniol	15
3.6 Tir y goron – Cais i eithrio	15
4. Y drefn ar gyfer trosglwyddo asedau a chyfrifoldebau ar ôl trosglwyddo	
4.1 Cytundebau Adran 104 a threfniadau trosiannol	16
4.2 Cyfrifoldebau cytundebol presennol	17
4.3 Buddiannau yn y tir	18
4.4 Trefniadau trosiannol - cofnodion carthffosydd	18
4.5 Rhwystrau	18
4.6 Ymyrryd â charthffos gyhoeddus	19
5. Cyfathrebu am drosglwyddo	
5.1 Proses hysbysu - gweithredoedd yr ymgymwrwr carthffosiaeth	20
5.2 Cyfathrebu am drosglwyddiad ategol gan yr ymgymwrwr carthffosiaeth	20
5.3 Gwrthwynebu trosglwyddo - apelio i Ofwat	21

1. Cyflwyniad

Daeth Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011 (y "Rheoliadau") i rym ar 1 Gorffennaf 2011 ac maent yn hwyluso trosglwyddiad carthffosydd, draeniau ochrol a gorsafoedd pwmpio preifat i Gwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Amcan y ddogfen hon yw darparu arweiniad ar y canlynol:

- materion sy'n debygol o godi yn sgil gweithredu'r Rheoliadau;
- dehongli'r Rheoliadau;
- prosesau nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoleiddio.

Nid yw'r arweiniad hwn yn cymryd lle'r Rheoliadau ac nid oes ganddo rym cyfreithiol. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Rheoliadau a'r Nodyn Eglurhaol ategol, Cynlluniau Gweinidogion Cymru ar gyfer mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol preifat, a'r rhannau perthnasol o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

2. Cefndir

2.1 Beth yw carthffosydd, draeniau ochrol a gorsafoedd pwmpio preifat?

Ceir ystyr gyfreithiol y termau hyn yn y diffiniadau a ddarperir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu'r Rheoliadau. Heb ragfarn i'r diffiniadau hynny, esbonnir yr ystyr gyffredinol isod:

Draeniau

Draen yw pibell sy'n cludo carthffrwd i ffwrdd o eiddo unigol.

Carthffosydd

Carthffos yw draen sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.

Carthffosydd preifat

Carthffos breifat yw carthffos nad yw wedi'i mabwysiadu gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth ac felly perchnogion yr eiddo y mae'n eu gwasanaethu sy'n gyfrifol amdani.

Draeniau ochrol

Draen ochrol yw'r adran honno o ddraen sydd y tu allan i ffin yr eiddo y mae'n ei wasanaethu, sy'n cysylltu'r draen â'r system carthffosiaeth gyhoeddus.

Gorsafoedd pwmpio

Gorsafoedd pwmpio yw cyfleusterau ar gyfer pwmpio carthffosiaeth a dŵr arwyneb o un lle i le arall.

Mae'r diffiniadau hyn yn cynnwys yr holl elfennau atodol sy'n cael eu defnyddio wrth weithio'r system garthffosiaeth, gan gynnwys tyllau archwilio, siafftau awyru, siambrau mynediad, pypiau, falfiau, prif bibellau dŵr, penstociau, telemetrau a pheiriannau neu offer arall.

2.2 Polisi Llywodraeth Cymru

2.2.1 Mae Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru ar y Polisi Strategol ar Ddŵr a gyhoeddwyd yn 2009 yn gosod ymrwymiad i barhau i ddatblygu Rheoliadau yn 2011 i hwyluso trosglwyddo carthffosydd a draeniau ochrol preifat i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth statudol yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 15 Rhagfyr 2008 y byddai'r trosglwyddo'n digwydd o 2011.

2.2.2 Roedd yr ymrwymiad hwn yn dilyn adolygiad helaeth o berchnogaeth carthffosydd preifat oedd yn archwilio'r problemau yr oedd perchnogaeth yn eu hachosi.

2.2.3 Ar hyn o bryd cyfrifoldeb y perchnogion yw carthffosydd a draeniau preifat, sef yn gyffredinol perchnogion a meddianwyr yr eiddo y maent yn eu gwasanaethu. Amcangyfrifwyd fod tua 50 y cant o'r eiddo yng Nghymru wedi'u cysylltu â charthffos breifat. Nid oes cofnodion cynhwysfawr o leoliad carthffosydd preifat na'u cyflwr.

2.2.4 Yn nodweddiadol, oni bai bod problem yn codi, yn aml nid yw meddianwyr tai yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am garthffos neu ddraen ochrol preifat sy'n gwasanaethu eu heiddo, hyd yn oed pan fydd yn parhau y tu hwnt i ffin eu heiddo. Pan fydd problemau'n codi, gall y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio pibau o'r fath fod yn uchel ac ambell waith cânt eu taenu ar draws nifer fach o gartrefi, a all arwain at feichiau ariannol sylweddol i'r sawl sy'n gyfrifol amdanynt. Gall anghydfod godi dros gyfraniadau at waith atgyweirio, er enghraifft gall un garthffos wasanaethu ac felly fod yn gydgyfrifoldeb i hyd at ddeg eiddo. Gallai atalfa benodol effeithio ar bedwar eiddo o blith y rhain yn unig a gallai'r chwech sy'n weddill wrthod cyfrannu at y costau atgyweirio. Mae hefyd yn bosibl fod yr atalfa wedi digwydd mewn eiddo sy'n ymddangos nad yw wedi'i effeithio gan y rhwystr a gallai'r perchennog wrthod caniatáu mynediad i'r eiddo hwnnw i'w atgyweirio. Mae'r berchnogaeth amrywiol hon, ynghyd â diffyg cynlluniau cynnal a chadw, yn golygu nad yw cymdeithas yn cael y manteision y byddai rheolaeth integredig o'r system garthffosiaeth gyfan yn eu rhoi.

2.3 Ymchwil ac Ymgynghori Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

2.3.1 Yn 2003, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) adolygiad o garthffosydd preifat oedd yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau i ddelio â'r problemau yr oedd perchnogaeth yn eu cyflwyno. Ar ôl ystyriaeth ofalus, casgliad Llywodraeth Cymru a Defra oedd mai trosglwyddo oedd yn cynnig y datrysiad mwyaf cynhwysfawr i'r problemau hyn gan dynnu beichiau annheg cynnal a chadw ac atgyweirio oddi ar feddianwyr tai.

2.3.2 Cytunwyd ar benderfyniadau ynglŷn â'r modd y byddai'r trosglwyddo yn cael ei weithredu yn dilyn ymchwil, cyswllt â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad ar y cyd rhwng y Llywodraeth a Defra: 'Trosglwyddo Carthffosydd Preifat – Opsiynau Gweithredu' a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2007.

2.3.3 Drwy gydol y broses hon, mynegodd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn gyson y byddai'n well ganddynt drosglwyddo carthffosydd a draeniau ochrol preifat presennol yn awtomatig dros nos

2.3.4 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a Defra ar y Rheoliadau a Chynlluniau arfaethedig ar gyfer trosglwyddo carthffosydd a draeniau ochrol preifat i gwmnïau dwr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr rhwng 26 Awst

a 18 Tachwedd 2010. Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Defra bedwar gweithdy ymgynghori, dau yng Nghymru a dau yn Lloegr, yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2010. Daeth nifer dda i'r gweithdai ac roeddent yn gyfle i randdeiliaid rannu profiadau ymarferol a gwneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft. Buont hefyd yn edrych i weld sut y gallai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a chyfathrebu gweithrediad y trosglwyddo.

2.3.5 Cafwyd dros gant o ymatebion i'r ymgynghoriad yng Nghymru a Lloegr. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Defra i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi crynodeb o ymatebion.

2.3.6 Cyhoeddwyd y crynodeb o ymatebion ac ymateb y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2011. Cyfrannodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad at ddrafft terfynol y Rheoliadau.

Ceir copi o'r dogfennau hyn yma:

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/privatesewertransfer/>

2.4 Beth yw trosglwyddo a phryd fydd hyn yn digwydd?

2.4.1 Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Rheoliadau ar 21 Mehefin 2011 a daethant i rym ar 1 Gorffennaf 2011. Maent yn hwyluso trosglwyddo cyfrifoldeb am garthffosydd a draeniau ochrol preifat dros nos i gwmnïau dwr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr ar 1 Hydref 2011, yn unol â Chynllun a wnaed gan Weinidogion Cymru ar gyfer mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol ar 1 Gorffennaf 2011 (y "Cynllun").

Mae'r prif eithriadau i'r trosglwyddo yn cynnwys:

- a) Carthffosydd dŵr arwyneb preifat sy'n draenio'n syth i gyrsiau dŵr, suddfannau dŵr neu ddyfeisiadau tebyg.
- b) Gweithiau trin carthffosiaeth, tanciau septig a charthbyllau mewn perchnogaeth breifat;
- c) Draeniau preifat o fewn ffiniau'r eiddo;
- d) Tir y Goron y mae'r ymgymwrwr carthffosiaeth wedi derbyn rhybudd o eithriad amdano;
- e) Carthffosydd a draeniau ochrol preifat ym meddiant ymgymwrwr rheilffordd

Mae Adran 3 yn rhoi mwy o fanylion ar gwmpas y trosglwyddo.

2.5 Pa fuddion sydd wedi'u sicrhau gan y trosglwyddo?

2.5.1 Mae'r trosglwyddo wedi sicrhau'r buddion canlynol:

- a) Gwell eglurder o ran perchnogaeth
- b) Rheolaeth fwy effeithiol o'r rhwydwaith carthffosiaeth

- c) Tynnu baich cynnal a chadw oddi ar berchnogion eiddo drwy ledaenu'r gost ar draws yr holl gwsmeriaid.

2.6 Pwy fydd yn talu am y trosglwyddo a beth fydd y gost?

2.6.1 Caiff cost y trosglwyddo ei dalu gyda chynnydd yn elfen carthffosiaeth biliau'r cwsmeriaid. Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd y cynnydd rhwng £3 a £14 y flwyddyn. Fodd bynnag, gan na fydd yr ymgwymerwyr carthffosiaeth yn gwybod gwir faint a chyflwr y carthffosydd preifat hyd nes bydd y trosglwyddo'n digwydd, mae union gost y trosglwyddo'n aneglur.

2.7 Oes angen i mi hysbysu fy ymgwymerwr carthffosiaeth os oes gennyf i garthffos neu ddraen ochrol preifat?

2.7.1 Nac oes, does dim angen i chi wneud dim byd er mwyn i'ch pibellau drosglwyddo. Bydd pibellau sy'n diwallu'r meini prawf trosglwyddo yn trosglwyddo'n awtomatig. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i berchnogion gorsafoedd pwmpio hysbysu eu hymgymerwyr carthffosiaeth o fodolaeth a lleoliad yr ased.

2.8 Sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd y rhwydwaith carthffosiaeth yn ehangu ymhellach?

2.8.1 Ym mis Chwefror 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr oedd yn darparu diweddariad ar y sefyllfa gan adlewyrchu datblygiadau allweddol yn y polisi dŵr yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac amlygu meysydd blaenoriaeth yn y dyfodol.

2.8.2 Mae'r datganiad diwygiedig yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno atal unrhyw garthffosydd preifat newydd rhag cael eu creu a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu darpariaethau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 er mwyn sicrhau bod yr holl garthffosydd newydd yn cael eu mabwysiadu
- Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw garthffosydd newydd yn cyrraedd safon dderbyniol i'w mabwysiadu, a byddwn yn cyhoeddi safonau adeiladu sylfaenol ar y cyd â Llywodraeth y DU
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dŵr Cymru Welsh Water, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb i bennu'r lefelau gwasanaeth a ddarperir gan y carthffosydd a drosglwyddir ac i flaenoriaethu'r camau gweithredu ar garthffosydd preifat

3. Pa asedau wedi cael eu trosglwyddo?

3.1 Cwmpas a Graddau'r Trosglwyddo

3.1.1 Nod y trosglwyddo yw rhyddhau perchnogion systemau draenio tanddaearol preifat o'r cyfrifoldeb am eu cynnal a chadw lle mae'r draenio hwnnw'n cysylltu â'r system carthffosiaeth gyhoeddus. Lle bydd unrhyw garthffosydd budur, dŵr arwyneb neu gyfun sydd eisoes yn bodoli, ac unrhyw ddraeniau o'r natur honno sydd y tu allan i gwrtil yr eiddo y maent yn eu gwasanaethu, yn cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus, yna bydd perchnogaeth a chyfrifoldeb am eu cynnal a'u cadw fel arfer yn trosglwyddo i'r ymgwymerwr carthffosiaeth ar gyfer yr ardal honno.

3.1.2 Diffinnir y termau "carthffos" a "draen ochrol" yn Adran 219 Deddf Diwydiant Dŵr 1991, ac mae'r diffiniadau hynny'n gymwys yn y Rheoliadau a'r Cynllun. Yn ei hanfod, fodd bynnag, diffinnir carthffos fel draen a rennir neu a ddefnyddir gan fwy nag un eiddo. Draen ochrol yw un sy'n gwasanaethu un eiddo ond sydd wedi'i leoli y tu allan i gwrtil yr eiddo hwnnw (hynny yw y tu hwnt i'w ffin) ac felly o fewn neu o dan gwrtil eiddo arall neu yn y stryd. Mae'r diffiniadau hyn yn cynnwys yr holl ategolion a ddefnyddir wrth weithredu'r system garthffosiaeth gan gynnwys tyllau archwilio, siaffftiau awyru, siambrau mynediad, pypiau, falbiau, penstocks, telemetreg a pheiriannau neu gyfarpar arall.

3.1.3 Ar 1 Hydref 2011 bydd yr holl garthffosydd a draeniau ochrol mewn perchnogaeth breifat sy'n cyfathrebu â (hynny yw draenio i) unrhyw garthffos gyhoeddus sy'n bodoli ar 1 Gorffennaf 2011 yn dod yn gyfrifoldeb ymgwymerwr carthffosiaeth - fel arfer y cwmni dŵr a charthffosiaeth ar gyfer yr ardal honno. Mae hyn yn cynnwys carthffosydd preifat a draeniau ochrol i fyny'r afon o orsafoedd pwmpio nad ydynt eto wedi trosglwyddo a hefyd carthffosydd preifat i fyny'r afon o garthffosydd neu ddraeniau sydd ar hyn o bryd yn destun apêl neu sydd wedi'u heithrio rhag cael eu trosglwyddo o ganlyniad i apêl. Caiff carthffosydd preifat a draeniau ochrol sydd i fyny'r afon o garthffosydd sydd ar neu o dan dir sydd wedi'i eithrio rhag trosglwyddo gan sefydliad y Goron neu sydd ym mherchnogaeth ymgwymerwr rheilffordd (ac felly wedi'u heithrio'n benodol yn y rheoliadau trosglwyddo) hefyd eu trosglwyddo.

3.1.4 Bydd unrhyw garthffos breifat oedd, yn union cyn 1 Gorffennaf 2011, yn cyfathrebu â carthffos breifat yn trosglwyddo. Ni fydd pibau sydd wedi'u cysylltu â charthffos gyhoeddus a heb eu cysylltu i eiddo i fyny'r afon yn trosglwyddo. Mae ymgwymerwyr carthffosiaeth a Datblygwyr yn cael cyngor i ymgynghori ynghylch safleoedd sydd wedi'u hadeiladu'n rhannol i gyrraedd dealltwriaeth gyffredinol ynghylch beth sydd wedi a heb gael ei drosglwyddo. Bydd hyn yn sicrhau nad yw ymgwymerwr yn tresbasu yn anfwriadol wrth gael mynediad i bibau yr oedd yn ystyried, yn gamsyniol, eu bod wedi'u trosglwyddo.

3.1.5 Bydd gorsafoedd pwmpio preifat sy'n ffurfio rhan o'r trefniadau draenio, ac sydd ar bibellau sy'n trosglwyddo ar 1 Hydref 2011, yn trosglwyddo'n

ddiweddarach. Bydd gorsafoedd pwmpio o'r fath yn trosglwyddo rhwng 1 Hydref 2011 a 1 Hydref 2016, gyda'r holl orsafoedd pwmpio nad ydynt wedi'u trosglwyddo cyn hynny yn trosglwyddo ar 1 Hydref 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ymgwymerwyr carthffosiaeth yn dymuno ystyried llunio rhaglenni gwaith i gyflawni trosglwyddiad cynyddol o orsafoedd pwmpio dros y cyfnod hwn o bum mlynedd. Bydd pibellau sydd i fyny'r afon o orsaf bwmpio yn trosglwyddo ar 1 Hydref 2011.

(i) Cynllun Trosglwyddo Ategol

3.1.6 Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gwneud cynllun trosglwyddo ategol. Mae hyn yn cydnabod bwriad Llywodraeth Cymru o gyflwyno Adran 42 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a fydd yn cyflwyno gofyniad bod carthffosydd a draeniau ochrol newydd sy'n cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn cael eu mabwysiadu'n awtomatig fel rhai "cyhoeddus" gan ymgwymerwyr carthffosiaeth. Nid yw dyddiad dechrau'r ddarpariaeth hon wedi'i osod eto, ac o ganlyniad bydd carthffosydd a draeniau ochrol sy'n gysylltiedig â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ar ôl 1 Gorffennaf 2011 ond cyn dechrau Adran 42 yn parhau'n breifat am y tro oni bai eu bod wedi bod yn destun cytundeb dan Adran 104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i'w mabwysiadu gan ymgwymerwyr carthffosiaeth fel asedau "cyhoeddus". Bydd llunio cynllun trosglwyddo ategol wrth i Adran 42 ddechrau yn sicrhau bod cwmnïau carthffosiaeth yn mabwysiadu carthffosydd preifat a draeniau ochrol a adeiladwyd yn y cyfnod interim hwn yn awtomatig. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw etifeddiaeth o garthffosydd preifat yn perthyn i'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn sgil y ffaith fod y prif drefniadau trosglwyddo'n digwydd cyn y trefniadau ar gyfer mabwysiadu carthffosydd preifat a draeniau ochrol sydd newydd eu cysylltu yn awtomatig. Bydd y trefniadau hyn yn destun ymgynghoriad ar wahân.

(ii) Systemau Carthffosiaeth Hunangynhwysol

3.1.7 Nid yw carthffosydd preifat a draeniau ochrol nad ydynt yn gysylltiedig â charthffos gyhoeddus (ond sydd er enghraifft yn draenio i gyfleuster trin, tanc septig neu garthbwill preifat nad yw'n rhyddhau dim i'r system garthffosiaeth gyhoeddus) yn cael eu heffeithio gan y trefniadau trosglwyddo a bydd cyfrifoldeb amdanynt yn parhau gyda'r perchnogion cyfredol. Yn yr un modd, mae carthffosydd preifat sy'n draenio'n uniongyrchol i waith trin cyhoeddus y tu hwnt i gwmpas y trosglwyddo. Os yw cyfleuster trin yn rhyddhau'n uniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus ni fydd y cyfleuster a'r pibellau sy'n draenio iddo yn trosglwyddo ar 1 Hydref 2011. Y rheswm am hyn yw nad yw'r dull hwn o ryddhau yr un peth â charthffosydd preifat neu ddraeniau ochrol sef pwnc y trosglwyddo.

(iii) Carthffosydd Dŵr Arwyneb


3.1.8 Bydd trosglwyddo'n gymwys i garthffosydd dŵr arwyneb (gan gynnwys systemau cyfunol) sydd, ar 1 Gorffennaf 2011, yn cyfathrebu â charthffos gyhoeddus. Wrth bennu'r hyn a olygir gan garthffos dŵr arwyneb bydd angen

ystyried materion peirianyddol ymarferol a swyddogaeth unrhyw drefniant penodol. Mae pibellau, pibellau mawr a thanciau tanddaearol (ar-lein neu all-lein) a adeiladwyd â deunyddiau anhyblyg (megis concrit a briciau) ac sy'n cyfathrebu â'r garthffos gyhoeddus yn enghreifftiau amlwg o strwythurau wedi'u peiriannu y byddai disgwyl iddynt drosglwyddo, ond nid yw nodweddion wedi'u peiriannu'n feddal (a elwir weithiau'n nodweddion llystyfiant) megis pyllau, traethbantau a gwlypdiroedd yn perthyn yn amlwg i'r un categori.

3.1.9 Os yw nodwedd wedi'i beiriannu'n feddal yn ffurfio rhan o system draenio dŵr arwyneb sydd ag allfa i'r garthffos gyhoeddus, fel arfer byddai'n trosglwyddo. Fodd bynnag dylid barnu pob achos yn ôl ei amgylchiadau ei hun, a dylid eu hystyried mewn achosion o'r fath i bennu i ba raddau y mae'r system yn trosglwyddo.


3.1. 10 Ni fydd carthffosydd a draeniau dŵr arwyneb sy'n draenio i suddfan dŵr, afon neu allfa arall ar wahân i'r garthffos gyhoeddus, yn trosglwyddo. Os ydynt yn rhan o gytundeb Adran 104 cyfredol, bydd y cytundeb yn parhau mewn grym ar gyfer asedau o'r fath a gellid breinio'r garthffos i'r cwmni dŵr a charthffosiaeth yn y dull arferol.

(iv) Enghraifft o drefniadau carthffosydd a draenio preifat cyfredol



- Eiddo preswyl
- Llwybr troed
- Priffordd Gyhoeddus
- Carthffos Gyhoeddus, cyfrifoldeb y cwmni dŵr
- Draen, cyfrifoldeb perchennog yr eiddo
- Carthffos Breifat, cyfrifoldeb perchennog yr eiddo

(v) Enghraifft o drefniadau yn y dyfodol



Eiddo preswyl

Llwybr troed

Priffordd Gyhoeddus

Carthffos Gyhoeddus, cyfrifoldeb y cwmni dŵr

Draen, cyfrifoldeb perchennog yr eiddo

Draen Ochrol, cyfrifoldeb y cwmni dŵr

3.1.11 Carthffosydd preifat – Yn dilyn trosglwyddo, bydd yr ymgwymerwyr carthffosiaeth yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw ac atgyweirio'r holl garthffosydd preifat (ar gyfer datblygiadau preswyl bwriedir hyn i gynnwys draenio sy'n gwasanaethu mwy nag un tŷ, heb ystyried a yw'r tai unigol dan yr un berchnogaeth) hyd at y pwynt lle maent yn cysylltu â charthffos gyhoeddus. Gweler y diagram uchod.

3.1.12 Draeniau ochrol - Bydd yr holl ddraeniau ochrol sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus yn dod yn gyfrifoldeb yr ymgwymerwr carthffosiaeth. Bydd draeniau sy'n gwasanaethu un eiddo ac o fewn ei gwrtil yn parhau'n gyfrifoldeb perchennog neu feddiannwr yr eiddo.

3.1.13 Os bydd y pwynt mynediad mwyaf ymarferol at y draen ochrol sydd wedi'i drosglwyddo wedi'i leoli bellter byr i mewn i gwrtil yr eiddo hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn deall y gallai'r ymgwymerwr carthffosiaeth, at ddibenion gweithrediadol, ddymuno ystyried derbyn cyfrifoldeb am glirio rhwystrau hyd at y pwynt hwnnw (er enghraifft y siambr mynediad cyntaf o fewn y cwrtil). Bydd hyn yn osgoi trafferthion o ran pennu'n union ymhle, er enghraifft, mae rhwystr wedi digwydd mewn perthynas â'r ffin. Rydym yn derbyn am resymau ymarferol y bydd angen i'r ymgwymerwr carthffosiaeth gael mynediad o'r siambr mynediad mwyaf priodol wrth gynnal archwiliad. At ddibenion y canllawiau hyn, cyhyd â bod y siambr mynediad y tu allan i'r adeilad, byddai'n

rhesymol i gwmnïau gymryd agosrwydd at ffin yr eiddo fel mesur bras ar gyfer dynodi cwmpas y cyfrifoldeb. Trafodir cwrttil ymhellach isod.

3.1. 14 Mae carthffosydd/draenïau sy'n dod dan Adran 20 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 (h.y. a adeiladwyd cyn 1937) eisoes yn garthffosydd cyhoeddus.

(vi) Cwrttil

3.1.15 Mae'r gyfraith yn defnyddio'r term cwrttil ond nid yw'n gosod diffiniad union na mecanwaith ar gyfer diffinio 'cwrttil' eiddo. Yn ystod yr Ymgynghoriad¹ ar y Rheoliadau hyn cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr nad oedd yn ymarferol diffinio cwrttil yn y rheoliadau at ddibenion trosglwyddo.

3.1.16 Beth bynnag yw'r sail ar gyfer pennu cwrttil mewn unrhyw achos unigol, mae trosglwyddo yn berthnasol i drefniadau draenio pob eiddo fel yr oeddent ar 1 Gorffennaf 2011. Ni fydd newidiadau i drefniadau draenio (megis draen blaenorol yn dod yn garthffos neu ddraen ochrol, neu garthffos yn dod yn ddraen) unrhyw eiddo ar ôl y dyddiad hwn, yn codi o newid yn y cwrttil oherwydd rhaniad eiddo neu gydgyrnoi sawl eiddo i greu un, yn arwain at newid awtomatig i statws carthffos neu ddraen o ganlyniad i'r rheoliadau trosglwyddo. Ni fydd carthffos preifat neu ddraen ochrol y datganwyd ei fod yn "gyhoeddus" o ganlyniad i drosglwyddo yn newid yn ôl i fod yn "breifat" o ganlyniad i unrhyw newid mewn amgylchiadau yn ddiweddarach, ac ni fydd asedau "preifat" yn newid i fod yn "gyhoeddus" chwaith. Ar ôl trosglwyddo bydd yn fater i'r perchnogion geisio mabwysiadu carthffosydd neu ddraenïau ochrol "preifat" drwy gytundeb dan Adran 104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1992 neu, lle bo'n briodol, dan Adran 102 y Ddeddf honno.

3.2 Dynodi cwrttil - eiddo unigol

3.2.1 At ddibenion trosglwyddo, mae'n bosibl mai un sail ymarferol ar gyfer sefydlu ffiniau cwrttil eiddo fydd **y tir o fewn ffiniau'r eiddo**. Er mai'r dystiolaeth orau o'r ardal hon a'i ffiniau yn aml fydd y ffin gyfreithiol, nid yw hynny'n wir bob tro. Mae'n bosibl nad yw'r hyn y gellir ei briodoli i gwrttil eiddo o reidrwydd yn adlewyrchu perchnogaeth. Pan fydd amheuaeth yn codi, bydd angen sefydlu cwmpas y cwrttil mewn achosion unigol.

3.2.2 Er enghraifft, yn achos adeilad fferm a feddiannir at ddibenion preswyl, at ddibenion y rheoliadau hyn byddai'n briodol i ystyried y ffin fel cwrttil yr adeilad fferm preswyl a'r buarth neu'r ardd o'i gwmpas yn hytrach na ffin y cae neu'r tir amaethyddol sy'n amgylchynu'r fferm.

3.2.3 Os ceir anghydfod am y cwrttil ac a yw'n cysylltu â ffiniau cyfreithiol yr eiddo, bydd unrhyw benderfyniad yn parhau yn fater i'r llysoedd neu'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tir), sef olynydd y Tribiwnlys Tiroedd. Dylai penderfyniadau apêl ynglŷn ag a ddylai carthffosydd preifat neu ddraenïau

ochrol penodol fod wedi derbyn hysbysiad gan ymgwymerwr carthffosiaeth o'r bwriad i'w trosglwyddo (breinio) aros gydag Ofwat.

3.3 Dynodi cwrtil - Safleoedd ag eiddo lluosog

3.3.1 Gall cwrtil unigol gynnwys sawl eiddo gwahanol dan berchnogaeth breifat (megis canolfan siopa) neu sydd â phrydlesi ar wahân neu drefniadau eraill (megis rhai ystadau masnachol) ond sydd â threfniadau draenio cyffredin yn sgil, er enghraifft, rheolaeth rydd-ddaliadol y safle. Dylid ystyried bod gan safleoedd o'r fath drefniadau draenio a reolir yn fewnol na fyddent yn cael eu hystyried yn garthffosydd preifat i'w trosglwyddo gan fod y safle ei hun yn cyfrif fel cwrtil sengl.

3.3.2 Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, yn achos safleoedd mewn perchnogaeth gyffredin, y bydd y draeniau ochrol yn cael eu mabwysiadu hyd at gwrtil y safle hwnnw ac y byddai'r draeniau o fewn y cwrtil yn parhau'n gyfrifoldeb perchennog y safle.


Ymhlith yr enghreifftiau o eiddo dan berchnogaeth a rheolaeth unigol y pennir eu bod yn eiddo unigol mae –

- Adeilad preswyl gyda nifer o fflatiau, naill ai wedi'u trawsnewid neu wedi'u hadeiladu'n bwrpasol - gweler y paragraff isod;
- Safle carafannau neu barc preswyl/cartrefi gwyliau;
- Gwesty/tŷ preswyl;
- Swyddfa neu adeilad masnachol;
- Parc diwydiannol, busnes, adwerthu neu wyddoniaeth;
- Campws ysgol neu brifysgol;
- Ysbyty neu gyfleuster meddygol arall;
- Gorsaf drenau;
- Maes awyr neu borthladd

3.3.3 Dylid ystyried bod ystadau cyngor neu gymdeithasau tai sy'n cynnwys tai confensiynol yn cynnwys eiddo unigol yn yr un modd ag ystadau preswyl sy'n cynnwys eiddo unigol dan berchnogaeth breifat.

3.3.4 Os yw datblygiad yn cynnwys nifer o flociau o fflatiau preswyl, dylid ystyried bod gan bob bloc gwrtil (sy'n cynnwys y tir sy'n amgylchynu ac sy'n amlwg i'w briodoli i floc unigol). Byddai angen pennu pwynt ymarferol fel terfyn cyfrifoldeb ymgwymerwr carthffosiaeth ar gyfer clirio rhwystrau mewn achosion unigol ond gallai fod yn siambr mynediad y tu allan i'r adeilad nad yw ar y briffordd nac yn nhir trydydd parti. Ni ddylai perchnogion fflatiau barhau'n gyfrifol am garthffosydd sy'n gorwedd o dan strydoedd. Yn yr un modd ni fyddai'r ymgwymerwr carthffosiaeth yn dod yn gyfrifol am drefniadau draenio mewnol cymunedol o fewn yr adeilad. Gweler y diagram isod.

Enghraifft o flociau o fflatiau preswyl



Carthffos Gyhoeddus, cyfrifoldeb y cwmni dŵr
Draen, cyfrifoldeb y perchennog tŷ

3.4 Draeniau disgyrchiant i fyny'r afon o orsafoedd pwmpio

3.4.1 Mae'r Rheoliadau trosglwyddo yn darparu ar gyfer trosglwyddo gorsafedd pwmpio dros y pum mlynedd hyd at 1 Hydref 2016 yn dilyn trosglwyddo pibelli disgyrchiant. Gan fod y Rheoliadau yn diffinio bod gorsaf bwmpio yn cynnwys y brif bibell godi, gall ymgymwrwr carthffosiaeth fabwysiadu'r orsaf bwmpio a'r brif bibell godi gysylltiedig gyda'i gilydd. Lle bydd prif bibell godi'n cynnwys draen ochrol, yn achos gorsaf bwmpio o fewn cwrtil eiddo unigol ac sy'n gwasanaethu'r eiddo hwnnw, yna gellir ystyried y brif bibell godi yn fabwysiadwy dros y pum mlynedd hyd at 1 Hydref 2016. Bydd draeniau ochrol a charthffosydd disgyrchiant i fyny'r afon o orsaf bwmpio sy'n gymwys i'w throsglwyddo yn trosglwyddo ar 1 Hydref 2011 ynghyd â phibelli disgyrchiant eraill.

3.4.2 Canlyniad hyn, am fod y Rheoliadau'n diffinio bod gorsaf bwmpio'n cynnwys prif bibell godi integrol, yw:

- 1) na fydd gorsaf bwmpio a phrif bibell godi sy'n gwasanaethu un eiddo ac o fewn cwrtil yr eiddo hwnnw'n trosglwyddo;
- 2) lle bo'r brif bibell godi yn ochrol (y tu hwnt i'r cwrtil) bydd yn trosglwyddo fel pe bai'n orsaf bwmpio (erbyn 1 Hydref 2016);

- 3) Lle bo gorsaf bwmpio a'r brif bibell godi'n gwasanaethu mwy nag un eiddo, bydd y ddau'n trosglwyddo ar yr un pryd erbyn 1 Hydref 2016

3.4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn dymuno ystyried llunio rhaglenni gwaith i gyflawni trosglwyddiad cynyddol o orsafoedd pwmpio dros y pum mlynedd at 1 Hydref 2016. Bydd perchnogion cyfredol yn parhau'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r gorsafoedd pwmpio hyd nes y byddant yn cael eu trosglwyddo i'r ymgwymerwr carthffosiaeth. Mae hyn yn golygu er nad yw'r trefniadau cynnal a chadw a mynediad presennol ar gyfer gorsafoedd pwmpio yn cael eu heffeithio ar unwaith gan y rheoliadau trosglwyddo, bydd ymgwymerwyr carthffosiaeth yn dod yn gyfrifol am y pibelli disgyrchiant i fyny'r afon o'r gorsafoedd pwmpio. Lle bo apelïadau yn erbyn trosglwyddo asedau'n codi, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod angen i ddefnyddwyr 'i fyny'r afon' o'r cyfryw asedau barhau i'w defnyddio.

3.4.4 O ganlyniad, lle bo gwaith cynnal a chadw gan berchnogion gorsaf bwmpio nad yw wedi'i throsglwyddo eto yn annigonol ac yn peri i garthffosydd disgyrchiant i fyny'r afon orlenwi, bydd disgwyl serch hynny'n gyffredinol i ymgwymerwyr carthffosiaeth ddiwallu eu dyletswydd statudol i lanhau a gwagio'r carthffosydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddraenio'r eiddo y maent yn ei wasanaethu. Yn yr amgylchiadau hyn gallai ymgwymerwyr carthffosiaeth ddymuno ystyried addasrwydd eu pwerau dan Adran 159 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu, fel y darperir dan Adran 160 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, a ddylent geisio gweithredu ar ran y deiliad ased cyfredol, gan ddefnyddio hawliau a phwerau'r deiliad ased i geisio mynediad i'r orsaf bwmpio ac ymgymryd â gwaith fel bo'r angen. Gallai hyn fod yn llai costus na'r dewisiadau amgen sef pwmpio heibio neu gludo'r gwastraff. Mewn egwyddor gellir adennill costau yr eir iddynt gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth yn gweithredu drwy gytundeb gan y deiliad ased cyfredol dan gytundebau fel y darperir yn Adran 160.

3.4.5 Mewn rhai achosion gallai perchnogion gorsafoedd pwmpio fod wedi ymgymryd â chontractau cynnal a chadw i sicrhau bod eu hased yn gweithredu. Yn y pen draw, mae trefniadau cytundebol cyfredol yn fater o gyfraith cytundebau mewn achosion unigol, ond nid oes gofyniad dan ddeddfwriaeth i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth anrhydeddu cytundebau yr eir iddynt gan y cyn-berchnogion unwaith y bydd perchnogaeth yn trosglwyddo. Gweler hefyd paragraff 4.2 (trefniadau cytundebau cyfredol).

3.4.6 Bydd trosglwyddiad cynyddol o orsafoedd pwmpio, sydd i'w gwblhau erbyn 1 Hydref 2016, yn caniatáu amser i ymgwymerwyr carthffosiaeth ganfod ac asesu'r gorsafoedd pwmpio, a blaenoriaethu a rhaglennu unrhyw waith angenrheidiol cyn trosglwyddo. Mater i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth fydd penderfynu a ddylid trefnu mynediad gyda'r perchnogion i wneud gwaith cyn trosglwyddo'r orsaf bwmpio yn ôl amgylchiadau pob achos unigol.

3.5 Carthffosydd a draeniau ochrol preifat traws-ffiniol

3.5.1 Dan y Rheoliadau, mae carthffosydd preifat yn fabwysiadwy gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth ar gyfer yr ardal y maent wedi'u lleoli ynddi. Mae draeniau ochrol yn gyfrifoldeb yr ymgwymerwr carthffosiaeth sydd wedi mabwysiadu'r garthffos gyhoeddus y mae'r draen yn cyfathrebu â hi. Yn achos carthffosydd sy'n croesi ardaloedd penodedig cwmnïau, ni fyddem yn disgwyl i drosglwyddo arwain at newid yn y trefniadau bilio cyfredol. Er nad yw perchnogaeth unrhyw garthffos breifat o bosibl ym meddiant yr ymgwymerwr carthffosiaeth sydd ar hyn o bryd yn bilio cwsmeriaid am wasanaethau carthffosiaeth byddai'n rhesymol i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth cyfagos fynd i drefniant gweithredol yn ymwneud â chynnal a chadw'r carthffosydd sy'n adlewyrchu'r trefniadau bilio cyfredol.

3.6 Tir y goron – Cais i eithrio

3.6.1 Tir y goron yw tir y mae gan y Goron fuddiant ynddo. Mae buddiannau'r Goron (a Dugaeth) yn rhinwedd breifat Ei Mawrhydi wedi'u heithrio'n benodol o'r rheoliadau drwy ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Nid oes dim tir Dugaeth na thiroedd preifat Ei Mawrhydi yn gynwysedig yn y trefniadau trosglwyddo.

3.6.2 Mae tir y Goron yn cynnwys;

- Tir sy'n eiddo i'w Mawrhydi dan hawl y Goron, sy'n cynnwys adran y Llywodraeth sy'n rheoli'r tir hwnnw;
- Tir sy'n eiddo i un o adrannau'r Llywodraeth neu a ddelir mewn ymddiriedaeth ar ran Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r Llywodraeth.
- Tir si'n eiddo i'w Mawrhydi dan hawl y Goron ac sy'n ffurfio rhan o Ystad y Goron, ac a reolir gan Gomisiynwyr Ystad y Goron.

3.6.3 Nid oes eithriad penodol o drosglwyddo ar gyfer carthffosydd a draeniau ochrol preifat ar dir y Goron. Mae'r canllawiau uchod ar ddynddi'r cwrtil perthnasol (Adran ii) mewn safleoedd eiddo lluosog yn gymwys fel mewn unrhyw ardal arall.

3.6.4 Gwahoddwyd rheolwyr tir y Goron gan y Llywodraeth i 'eithrio' o safleoedd trosglwyddo lle mae mynediad o reidrwydd yn gyfyngedig (er enghraifft safleoedd diogel y Weinyddiaeth Amddiffyn) drwy hysbysu'r ymgwymerwr carthffosiaeth perthnasol am dir yr dymument ei eithrio o drosglwyddiad i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth.

3.6.5 Lle nad oes hysbysiad wedi'i dderbyn, bydd y carthffosydd a draeniau ochrol preifat hynny sy'n cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ac sydd wedi'u lleoli ar neu o dan dir y Goron yn dod yn gyfrifoldeb yr ymgwymerwr carthffosiaeth, fel y byddai'n digwydd gydag eiddo mewn perchnogaeth breifat.

4. Y drefn ar gyfer trosglwyddo asedau a chyfrifoldebau ar ôl trosglwyddo

Bydd yr holl garthffosydd preifat a draeniau ochrol sy'n gysylltiedig â'r system gyhoeddus ar 1 Gorffennaf 2011 yn gymwys i drosglwyddo i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth ar 1 Hydref 2011. Bydd y drefn sylfaenol ar gyfer y broses hon fel a ganlyn:

- Ar neu yn fuan ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Gorffennaf, bydd yr ymgwymerwyr carthffosiaeth yn cyflwyno rhybudd i berchnogion yr holl garthffosydd a draeniau ochrol preifat am y datganiad arfaethedig o freinio ar 1 Hydref 2011. Hefyd mae perchnogion carthffosydd preifat ac eraill sydd â diddordeb (er enghraifft lle bo carthffos breifat yn croesi eiddo arall ond nad yw'n cael ei defnyddio gan yr eiddo hwnnw) wedi'u cynghori o'u hawl i apelio yn erbyn breinio, a rhaid oedd cyflwyno'r apêl i Ofwat o fewn dau fis i gyflwyno'r rhybudd, neu ei gyhoeddi yn y wasg, pa bynnag un sydd hwyraf;
- Gwnaeth ymgwymerwyr carthffosiaeth ddatganiad breinio a fydd yn weithredol ar 1 Hydref 2011, oni bai nad yw apêl wedi dod i ben;
- Ar 1 Hydref 2011, trosglwyddodd carthffosydd a draeniau ochrol preifat i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth, oni bai bod apêl yn parhau dan adran 105B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn erbyn y cynnig i wneud datganiad breinio dan Adran 102 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn unol â'r Rheoliadau. Mewn achosion o'r fath bydd yr asedau'n trosglwyddo (neu beidio, fel bo'r achos) pan fydd Ofwat yn penderfynu ar yr apêl.

4.1 Cytundebau Adran 104 a threfniadau trosiannol

4.1.1 Dan Adran 104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, gall datblygwr fynd i gytundeb gwirfoddol gydag ymgwymerwr carthffosiaeth ar gyfer mabwysiadu carthffosydd sy'n gwasanaethu datblygiad.

- Ble bo cytundeb Adran 104 yn weithredol mewn perthynas â charthffosydd preifat sy'n gysylltiedig â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ar 1 Gorffennaf 2011, bydd y carthffosydd preifat yn trosglwyddo'n awtomatig ar 1 Hydref (neu'r dyddiad a bennwyd yn y cytundeb, os yw'n gynharach) ac felly ni fydd gan y cytundeb ddiben parhaus. Bydd yn peidio â bod yn effeithiol i'r graddau y bo'n ymwneud â charthffosydd preifat a draeniau ochrol sy'n dod dan y Rheoliadau trosglwyddo.
- Ble bo cytundeb o'r fath hefyd yn cwmpasu asedau nad ydynt yn gymwys i'w trosglwyddo, er enghraifft carthffosydd dŵr arwyneb yn draenio'n syth i gwrs dŵr, mae'r cytundeb yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r asedau hynny, gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau am

fond neu fach mewn perthynas â'r gwaith sy'n dod dan ddarpariaethau'r cytundeb nad ydynt eto wedi'u cwblhau.

- Bydd cytundebau Adran 104 presennol mewn perthynas â charthffosiaeth nad yw wedi'i hadeiladu neu ei chysylltu â'r system gyhoeddus erbyn 1 Gorffennaf 2011 yn parhau'n ddilys tan fod y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.
- Ble nad ydynt eisoes wedi'u mabwysiadu dan gytundeb Adran 104, bydd carthffosydd preifat a gwblheir rhwng 1 Gorffennaf 2011 a dyddiad dechrau Adran 42 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cael eu trosglwyddo gyda throsglwyddiad ategol fel y darperir yn y Rheoliadau trosglwyddo.
- Bydd carthffosydd preifat a gaiff eu hadeiladu a'u cysylltu ar ôl cychwyn Adran 42 yn ddarostyngedig i drefniadau adeiladu newydd, oni bai bod eithriad dan delerau'r trefniadau trosiannol a gynigir i'w cynnwys yn y Gorchymyn cychwyn. Bydd y rhain yn darparu ar gyfer pennu cymeradwyaeth bresennol (h.y. lle mae Rheoliadau Adeiladu neu gymeradwyaeth arall yn bodoli) i fodloni'r gofynion ar gyfer adeiladu i safonau 'cymeradwy'.

4.2 Cyfrifoldebau cytundebol presennol

4.2.1 Yn achos asedau (h.y. gorsafoedd pwmpio) nad ydynt yn cael eu trosglwyddo ar unwaith, nid yw'r Rheoliadau yn effeithio ar ymrwymadau contractaidd cyfredol. Bydd yr hawliau a'r cyfrifoldebau dan y contract sy'n gymwys i asedau na throsglwyddir yn parhau.

4.2.2 Mewn perthynas â charthffosydd disgrychiant preifat sy'n trosglwyddo ar 1 Hydref 2011, ac yn dod yn gyfrifoldeb yr ymgwymerwyr carthffosiaeth, mae'n bosibl y bydd ymgwymerwyr carthffosiaeth ac awdurdodau lleol yn dymuno eu bodloni eu hunain a oes, yn dilyn trosglwyddo, unrhyw staff awdurdod lleol sy'n ymwneud yn bennaf â chynnal a chadw carthffosydd preifat, y byddai Trosglwyddo Ymgwymeriadau Diogelu Cyflogaeth yn berthnasol.

4.2.3 Lle bydd gwaith yn cael ei wneud i atgyweirio neu adnewyddu carthffosydd preifat sydd wedi'u rhoi mewn llaw fel hawliad dan bolisi yswiriant, dylai'r gwaith gael ei gwblhau fel cytundeb contractaidd a orchmynnwyd cyn i'r trosglwyddo gael ei weithredu. Mae ymgwymerwyr carthffosiaeth yn cydnabod y bydd ganddynt, yn y mwyafrif helaeth o sefyllfaoedd, ddigon o gymhelliad i ganiatáu i yswirwyr, yn y cyfnod wedi 1 Hydref 2011, barhau i weithio ar garthffos pan oedd y gwaith hwnnw wedi dechrau cyn y dyddiad trosglwyddo. Maent felly'n dymuno mabwysiadu agwedd bositif at y sefyllfa.

Fodd bynnag, er mwyn rheoleiddio'r sefyllfa, gofynnir i yswirwyr hysbysu'r ymgwymerwyr carthffosiaeth perthnasol o unrhyw waith o'r fath, gan roi cyfle felly i'r cwmni carthffosiaeth wneud sylwadau. Nid yw'n debygol y bydd gan ymgwymerwyr carthffosiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith barhau os yw

materion megis cydymffurfio â'r safonau perthnasol, Rheoliadau Adeiladu er enghraifft (lle y bo'n berthnasol), arferion gweithio diogel ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'u trefnu'n ddigonol.

4.3 Buddiannau yn y tir

4.3.1 Rydym ni wedi ymgynghori â'r Gofrestrfa Tir ar faterion yn ymwneud â chofrestru tir yn codi o drosglwyddo carthffosydd preifat. Eu barn hwy yw:

4.3.2 Nid oes angen i ymgymmerwyr carthffosiaeth gofrestru eu buddiant yn y carthffosydd a draeniau ochrol lle bônt yn rhedeg drwy dir anghofrestredig, ac ni allant gofrestru trosglwyddiad o garthffosydd a draeniau ochrol iddynt lle bônt ar dir cofrestredig. Fodd bynnag mewn achosion lle caffaelir tir sy'n darparu mynediad i orsaf bwmpio, byddai angen ystyried cofrestru.

4.3.3 Mater i ymgymmerwyr carthffosiaeth fyddai ymgeisio i drefnu rhybudd a gytunwyd mewn perthynas â'u buddiant yn y carthffosydd a draeniau ochrol yn rhedeg drwy dir cofrestredig a hawl y cyhoedd i'w defnyddio. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod yr hawliau a nodwyd yn peidio â bod yn "fuddiannau gor-redol", ac felly gallent fod mewn perygl pe bai'r rhybudd yn dod oddi ar gofrestr y teitl ac yn dilyn hynny bod y tir yn cael ei werthu.

4.4 Trefniadau trosiannol - cofnodion carthffosydd

4.4.1 Mae'n debygol y bydd unrhyw gofnodion yn ymwneud â charthffosydd, draeniau ochrol a gorsafoedd pwmpio preifat a gaiff eu trosglwyddo i'r ymgymmerwr carthffosiaeth ym meddiant perchnogion, awdurdodau lleol a chontractwyr cynnal a chadw. Er mwyn sicrhau bod yr asedau'n cael eu trosglwyddo'n effeithiol gyda'r risg lleiaf posibl o amharu, byddai er budd y sawl sydd â gwybodaeth berthnasol i basio'r wybodaeth i'r ymgymmerwr carthffosiaeth, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am gontractau cynnal a chadw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ymgymmerwyr carthffosiaeth yn y safle gorau i ymateb i unrhyw broblemau yn y dyfodol a allai godi ar yr asedau dan sylw a lleihau unrhyw ansicrwydd am gyfrifoldeb dros eu cynnal yn y dyfodol.

4.4.2 Os bydd problem yn codi ar garthffos neu ddraen, gyda'r awdurdod lleol yn ystyried a ddylai ddefnyddio ei bwerau statudol i sicrhau unioni rhwystrau neu namau eraill ar garthffosydd preifat, bydd angen cysylltu â'r ymgymmerwr carthffosiaeth i ganfod a yw'r garthffos neu'r draen wedi'i drosglwyddo. Er nad yw ar gofnod y garthffos, bydd yr ymgymmerwr carthffosiaeth yn gallu dweud a yw'r eiddo dan sylw yn un y mae'n darparu gwasanaethau carthffosiaeth iddo ai peidio, ac felly a fyddai'r garthffos neu'r draen ochrol perthnasol wedi'i drosglwyddo iddynt.

4.5 Rhwystrau

4.5.1 Pan fydd meddiannwr yn dod yn ymwybodol o rwystr, efallai nad yw'n amlwg a yw'r rhwystr o fewn y draen preifat y mae'n gyfrifol amdano ynteu yn y garthffos neu'r draen ochrol cyhoeddus sydd bellach yn gyfrifoldeb yr

ymgymerwr carthffosiaeth. Dim ond o fewn y draen preifat y gall y meddiannwr gomisiynu gwaith. Nid oes gan y meddiannwr unrhyw awdurdod i gomisiynu unrhyw waith o fewn y garthffos/draen ochrol cyhoeddus heb gysylltu'n gyntaf â'r ymgwymerwr carthffosiaeth i gadarnhau pa waith sydd i'w wneud. Er mwyn sicrhau bod rhwystrau mewn draeniau a draeniau ochrol yn cael eu trin yn gyflym, byddai er budd y cwmnïau carthffosiaeth, contractwyr draenio ac yswirwyr i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu trefniadau gweithrediadol sy'n sicrhau nad yw'r lefel o wasanaeth i berchnogion eiddo yn cael ei amharu gan ansicrwydd ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol.

4.6 Ymyrryd â charthffos gyhoeddus

4.6.1 Unwaith y bydd wedi'i breinio i (ym mherchnogaeth) ymgwymerwr carthffosiaeth, gallai unrhyw un sy'n ymyrryd â "charthffos gyhoeddus" neu "ddraen ochrol gyhoeddus" heb ganiatâd fod yn agored i'w erlyn.

4.6.2 Ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ar 1 Gorffennaf 2011, lle nad yw arwyneb terfynol y ffordd wedi'i gwblhau, bydd angen i ymgwymerwyr carthffosiaeth sicrhau bod cytundebau'n weithredol gyda datblygwyr, naill ai fel rhan o gytundeb i fabwysiadu draenio newydd dan Adran 104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu fel cytundeb ar wahân neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n cynnwys arferion adeiladu megis addasiadau angenrheidiol i'r gwaith haearn fel rhan o'r gwaith arwyneb ffordd a'r gwaith allanol terfynol.

4.6.3 Cydnabyddir mewn rhai achosion y bydd trefniadau gwarant y Cyngor Adeiladwyr Tai Cenedlaethol (NHBC) a datblygwyr yn gymwys. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai ymgwymerwyr carthffosiaeth ddymuno ystyried a yw telerau unrhyw warant yn caniatáu iddynt alw arno.

4.6.4 Pan fydd awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau am gymeradwyaeth i gynnig datblygiad a fyddai'n golygu adeiladu dros garthffos gyhoeddus bresennol, caiff hyn ei hysbysu i'r ymgwymerwr carthffosiaeth. Mae hyn yn galluogi ymgwymerwyr carthffosiaeth i geisio cytundebau gyda'r unigolyn sy'n cynnig adeiladu dros garthffos gyhoeddus er mwyn gwarchod y garthffos a darparu mynediad iddi at ddibenion cynnal a chadw a gwarchod yr adeilad drwy sicrhau nad yw'r gwaith adeiladu'n niweidio'r garthffos ac yn achosi gollyngiadau a allai danseilio'r strwythur. Bydd trosglwyddo'n golygu y bydd angen i berchnogion eiddo sy'n cynnig adeiladu estyniadau ystyried trefniadau draenio eu heiddo a rhoi ystyriaeth i fodolaeth carthffos neu ddraen ochrol sydd newydd ei drosglwyddo. Mae'r trafodaethau'n parhau rhwng yr ymgwymerwyr carthffosiaeth, y diwydiant, datblygwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladu gyda'r bwriad o sefydlu proses syml i gymeradwyo adeiladu dros (neu'n agos at) garthffosydd bas, sef y rhan fwyaf o garthffosydd sydd wedi'u trosglwyddo.

5. Cyfathrebu am drosglwyddo

5.1 Proses hysbysu - gweithredoedd yr ymgwymerwyr carthffosiaeth

5.1.1 Dan Adran 102(4) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, rhoddodd pob ymgwymerwr carthffosiaeth rybudd am ei gynnig y dylai carthffosydd a draeniau ochrol preifat drosglwyddo iddo.

5.1.2 At ddibenion y Rheoliadau hyn, roedd y rybudd ar ffurf hysbysiad i bob **perchennog**, ar ffurf disgrifiad generig o faint o garthffosydd a draeniau ochrol preifat sydd i'w mabwysiadu yn hytrach na dynodi'n union y carthffosydd a draeniau ochrol preifat penodol dan sylw. Cafodd yr hysbysiad hwn ei anfon drwy'r post, **gan ddefnyddio cronfeydd data priodol i sicrhau bod pob eiddo perthnasol yn cael ei gynnwys**.

5.1.3 Yn ogystal â chyflwyno rybudd i'r perchnogion fel yr amlinellir uchod, rhaid i ymgwymerwr carthffosiaeth hefyd gyhoeddi rybudd o'i gynnig. Cafodd y rybudd hwn ei gyhoeddi yn y London Gazette ac mewn digon o bapurau newydd lleol neu ranbarthol i gynnwys holl ardal yr ymgwymerwr carthffosiaeth.

5.1.4 Bwriad cyhoeddi'r cynnig yn y modd hwn yw cyflenwi rybudd digonol i'r holl unigolion a gaiff eu heffeithio, gan gynnwys tiffeddianwyr gwasanaethol (hynny yw'r sawl sy'n berchen ar dir y mae pibell yn rhedeg drwyddo), ac yna pennir eu bod yn ymwybodol o'r cynnig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi hysbysu cyrff cynrychioliadol arwyddocaol perthnasol yn uniongyrchol.

5.1.5 Yn wahanol i'r hysbysiad generig o drosglwyddo a anfonir at berchnogion carthffosydd a draeniau ochrol disgyrchiant, er mwyn bodloni gofynion Adran 102 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, bydd angen i'r hysbysiad i berchnogion am drosglwyddo gorsafodd pwmpio, y mae angen iddo ddiwydd rhwng 1 Hydref 2011 a 1 Hydref 2016, gael ei wneud drwy anfon rybudd unigol unwaith y bydd dyddiad ar gyfer breinio'r orsaf bwmpio dan sylw wedi'i bennu a bod hyn cyn 1 Hydref 2016.

5.2 Cyfathrebu trosglwyddiad ategol gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth

5.2.1 Yn ogystal, yn dilyn y prif gynllun, dylai fod gan ymgwymerwr carthffosiaeth gofnod o gysylltiadau newydd yn sgil y gofyniad am hysbysu o'r bwriad i gysylltu â charthffos gyhoeddus dan Adran 106 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 a cheisiadau newydd am gytundebau i fabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol newydd dan Adran 104 y Ddeddf. Dylent hefyd gael cofnodion o'r eiddo hynny sydd wedi'u bilio am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod perthnasol. Bydd y cofnodion hyn yn caniatáu i'r ymgwymerwr carthffosiaeth ddynodi pwy a ddylai dderbyn rybudd o'r cynllun trosglwyddo ategol.

5.3 Gwrthwynebu trosglwyddo - apelio i Ofwat

5.3.1 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr hyn a gaiff ei drosglwyddo at yr ymgwymerwr carthffosiaeth perthnasol neu'r ymgwymerwr carthffosiaeth a enwir yn y rhybudd. Bydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd yn gallu cynnig cyngor ar gwmpas y trosglwyddo. Dylid nodi nad yw carthffosydd preifat wedi'u cynnwys yn y cofnodion carthffosydd sydd ym meddiant yr ymgwymerwyr carthffosiaeth ac na fyddant o reidrwydd yn gallu cyngori ar union nodweddion neu gwmpas y systemau sydd i'w trosglwyddo mewn achosion unigol. Dylid bod wedi cyfeirio apeliadau yn erbyn trosglwyddiad arfaethedig unrhyw garthffos (gan gynnwys gorsafoedd pwmpio) neu ddraen ochrol preifat gan y perchennog neu barti arall a effeithir gan y trosglwyddo neu fethiant i drosglwyddo at Awdurdod Rheoleiddio'r Gwasanaethau Dŵr ("Ofwat") erbyn diwedd y cyfnod apelio, 30 Medi 2011. Mae Ofwat wedi cyhoeddi canllawiau ar apelio y gellir eu gweld yn www.ofwat.gov.uk.

5.3.2 Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn cynnwys darpariaethau yn llywodraethu apeliadau yn erbyn cynlluniau mabwysiadu. Gellir cyflwyno apêl i Ofwat, mewn perthynas â bwriad ymgwymerwr carthffosiaeth i wneud datganiad i fabwysiadu carthffos neu ddraen ochrol preifat, neu mewn perthynas â methiant cwmni carthffosiaeth â datgan cynnig i fabwysiadu. Gall perchennog carthffos neu ddraen ochrol preifat neu unrhyw unigolyn arall a effeithir gan y cynnig neu'r methiant gyflwyno apêl o'r fath.

5.3.3 Sail yr apêl yw nad yw'r garthffos neu'r draen ochrol preifat yn un mae gan y cwmni carthffosiaeth ddyletswydd i'w fabwysiadu, neu y byddai mabwysiadu'n niweidiol iawn i fuddion yr apelydd. Yn yr un modd gellir cyflwyno apêl ar y sail fod gan y cwmni ddyletswydd i fabwysiadu ond ei fod wedi methu â chynnig gwneud hynny.

5.3.4 Rhaid cyflwyno apêl yn erbyn cynnig cwmni i ddatgan carthffos breifat, draen ochrol neu orsaf bwmpio o fewn dau fis i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r perchennog, neu ddau fis ar ôl cyhoeddi'r rhybudd os yw'n ddiweddarach. Rhaid gwneud apêl yn erbyn methiant i fabwysiadu o fewn tri mis i ddyddiad y cynllun trosglwyddo.

Rhaid cyflwyno apêl i Ofwat o fewn y terfyn amser.

5.3.5 Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a phroses gweithredu trosglwyddo carthffosydd a draeniau ochrol preifat gan amrywiol ffynonellau gan gynnwys gwefannau Llywodraeth Cymru, Defra, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, Water Uk, Cyngor y Defnyddwyr Dŵr ac Ofwat.